Trwy e-bost

Lynne Neagle MS
Gadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

7 Hydref 2020

Annwyl Lynne,

Diolch am eich gohebiaeth dyddiedig 23 Medi yn gofyn am ymatebion i gwestiynau ychwanegol nas trafodwyd yn ein hymddangosiad diweddar yn y Pwyllgor i drafod Egwyddorion Cyffredinol bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru).

Rydym bellach wedi cael amser i ystyried y cwestiynau hyn yn llawn a darperir ein hatebion iddynt yn yr atodiad sydd ynghlwm wrth y llythyr hwn.

Yn gywir

Philip Blaker
**Prif Weithredwr**

**Qualifications Wales**
Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

**Cymwysterau Cymru**
Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

**QW Response to CYPE Committee's Supplementary on the Curriculum and Assessment Bill.**

## 1. RELIGION, VALUES AND ETHICS

The Bill's provisions in relation to Religion, Values and Ethics (RVE) mean that there are likely to be two different versions of RVE taught in schools across Wales. Community schools and other schools without a religious character will be required to teach RVE having regard to the Agreed Syllabus. Voluntary controlled schools with a religious character will be required to teach RVE having regard to the Agreed Syllabus unless a parent requests their child receives RVE in line with the trust deeds of the school or tenets of the school's faith (i.e. denominational RVE). Voluntary aided schools with a religious character will by default teach denominational RVE unless a parent requests their child receive RVE that accords with the Agreed Syllabus.

- ***What implications does the likely provision of more than one form of RVE have for qualifications in this discipline?***

**Ymateb Cymwysterau Cymru:**

Mae hyn yn rhywbeth y byddwn am ei ystyried yn ofalus gyda rhanddeiliaid pan ddeuwn i gamau ymgynghori diweddarach ar ddyluniad penodol cymwysterau unigol.

O ran meysydd eraill y cwricwlwm, wrth ystyried cynllun cymwysterau yn y maes hwn yn y dyfodol, byddwn yn edrych ar sut y gellir llunio cymwysterau i gynnig hyblygrwydd i ysgolion a dysgwyr o ran sut y maen nhw'n ymdrin â'r cynnwys a'r cyd-destun y maen nhw'n eu hastudio.

Wrth ddiwygio'r cymwysterau TGAU Astudiaethau Crefyddol presennol, buom yn ymgynghori ac yn ymgysylltu'n eang ar gynigion cynllunio i sicrhau bod y cymhwyster yn diwallu anghenion dysgwyr mewn gwahanol ysgolion a lleoliadau. Y canlyniad oedd manyleb sy'n cyfuno elfennau gorfodol a dewisol i gynnig llawer o wahanol lwybrau drwy'r cymhwyster. Mae hyn yn golygu bod un cymhwyster yn cynnig cwrs i ddysgwyr a chanolfannau sy'n gydlynol ac sy'n cydbwyso gwybodaeth am gredoau, dysgeidiaethau ac arferion craidd dwy grefydd o leiaf, gyda dealltwriaeth o sut y gellir eu cymhwyso i themâu athronyddol a moesegol. Mae ein profiad o ddatblygu'r gofynion ar gyfer y cymhwyster TGAU presennol yn awgrymu, drwy gydweithio gofalus, ei bod yn bosibl datblygu cymwysterau cenedlaethol yn y maes hwn sy'n caniatáu digon o hyblygrwydd i ddiwallu anghenion lleol gwahanol.

Er y byddwn, wrth gwrs, am sicrhau bod anghenion rhesymol pob dysgwr yn cael eu diwallu, mae'n werth nodi bod y cwricwlwm, yn genedlaethol ac yn lleol, yn wahanol i gymwysterau. Ni fydd pob agwedd fanwl ar gwricwlwm ysgol o reidrwydd yn cael ei hadlewyrchu mewn cymhwyster. Yn yr un modd â llawer o'r gwaith sydd o'n blaenau ar gymwysterau a'r cwricwlwm, yr allwedd fydd gweithio gyda rhanddeiliaid i sicrhau'r cydbwysedd iawn.

## 2. WELSH LANGUAGE

The Bill establishes a single learning continuum of learning Welsh in all schools, replacing the current distinction between Welsh first language and Welsh second language.

- ***How will qualifications in Welsh align with the different stages that learners are likely to be on along the single continuum for Welsh?***

- ***Will there be a single qualification in Welsh or will there still be a need for two levels of qualification depending on the learner's proficiency in Welsh?***

**Ymateb Cymwysterau Cymru:**

O ran cytuno ar ystod briodol o gymwysterau i gefnogi dysgu Cymraeg, mae yna sawl her a chyfle i'w hystyried. Rydym wedi trafod y rhain yn fanylach yn ein cyngor i'r Gweinidog Addysg[1] yn gynharach eleni.

O ystyried yr ystod eang o ddatblygiad iaith y mae'r continwwm yn ei gwmpasu, mae'n debygol y bydd angen mwy nag un cymhwyster i alluogi asesiad teg a chymesur o ddysgwyr sydd ar wahanol gamau dilyniant. Rhagwelwn y byddai unrhyw gymwysterau Cymraeg yn cysylltu'n glir ag un continwwm dysgu ac yn symud oddi wrth y gwahaniaeth presennol rhwng Cymraeg iaith gyntaf a Chymraeg ail iaith.

Mae hwn yn faes o'r cwricwlwm y bydd yn arbennig o bwysig inni weithio arno gyda rhanddeiliaid i helpu i ddatblygu ein cynigion fel ein bod yn cael cymaint o wybodaeth â phosibl am yr hyn y mae newidiadau'n debygol o'i olygu'n ymarferol.

Byddwn yn ceisio barn ar gynigion ar gyfer cymwysterau i gefnogi'r continwwm ar gyfer dysgu Cymraeg yn ein cylch ymgynghori nesaf. Dros yr wythnosau nesaf, byddwn yn ymgysylltu ag amrywiaeth o randdeiliaid i nodi cynigion posibl ar gyfer ymgynghori.

---

[1] https://qualificationswales.org/cymraeg/cymwys-ar-gyfer-y-dyfodol/cam-1---llunio-ein-dull/

Wrth fynd at y gwaith hwn, rydym yn cydnabod yr angen i:

- Gynnal ac adeiladu ar y cyrhaeddiad a'r hyfedredd a gyflawnwyd mewn cymwysterau cyfredol, gan gynnwys y cymhwyster TGAU Cymraeg Ail Iaith a ddiwygiwyd yn ddiweddar ac a ddyfarnwyd am y tro cyntaf yn 2019.
- Sicrhau bod y cymwysterau sydd ar gael yn diwallu anghenion pob dysgwr a'u cefnogi i ddod yn siaradwyr Cymraeg hyderus erbyn 16 oed.
- Egluro sut mae cymwysterau iaith yn gysylltiedig â'r cwricwlwm, â'i gilydd ac â llwybrau ôl-16.
- Annog dysgwyr i weithio tuag at gymwysterau addas ac uchelgeisiol yn seiliedig ar eu cynnydd a'u hyfedredd presennol.
- Ystyried yr adnoddau a'r gallu addysgu a fydd ar gael i ysgolion wrth iddynt gyflwyno'r cwricwlwm newydd.

Bydd angen i ni hefyd ystyried a ddylid gwneud y newidiadau i gyd ar unwaith neu fesul cam. Efallai, er enghraifft, y bydd angen adolygu lefel y galw am rai cymwysterau yn unol â'r cynnydd tuag at gyflawni strategaeth *Cymraeg 2050* Llywodraeth Cymru.

## 3. PLANNING FOR QUALIFICATIONS MORE BROADLY

Your written evidence states that the development and publication of the new Curriculum for Wales has been a 'catalyst' for you to look at how qualifications for 14 to 16 year olds will need to change. This, you explain, is in order to meet the new curriculum's aims and purposes and respond to future needs. You also outline the work you have undertaken to date on consulting on the high-level approach to shaping future qualifications, and work that is yet to come.

In oral evidence, you said that the engagement undertaken so far suggests there is preference for qualifications to continue to be structured mainly around subject disciplines, rather than having individual qualifications that are seeking to cover the whole of an Area of Learning and Experience (AoLE). However, you also suggested there may be opportunities to develop more holistic and integrated qualifications to sit alongside those that are subject-specific.

- ***Are you able to share any further detail, at this stage, on your thinking about how the new GCSEs will look in practice, and give an indication of what any future consultation will consider***

  ***(e.g. will it outline the options which should be available to young people, or will it be focused on the philosophy underpinning the approach)?***

**Ymateb Cymwysterau Cymru:**

Yn ein hymgynghoriad nesaf byddwn yn cynnig yr ystod o gymwysterau TGAU a chymwysterau cymeradwy eraill a ddylai fod ar gael i ganolfannau ddewis ohonynt wrth benderfynu pa gyrsiau i'w cynnig i'w dysgwyr. Bydd hyn yn canolbwyntio ar y prif gymwysterau, sydd wedi'u gwneud ar gyfer Cymru, a ddylai fod ar gael. Unwaith y cytunir ar y prif gymwysterau byddwn yn gallu dechrau edrych yn fanylach ar ba gymwysterau eraill, llai pwrpasol, y gallai canolfannau ddewis ohonynt hefyd.

Wrth ddatblygu ein cynigion, rydym yn edrych ar y cymwysterau a fydd yn angenrheidiol i gefnogi prif feysydd y cwricwlwm. Byddwn hefyd yn gofyn am y cymwysterau y gallai fod eu hangen mewn pynciau eraill, gan gynnwys meysydd ymarferol a seiliedig ar waith, lle y gallai fod angen cymwysterau.

Ni fyddwn yn edrych ar hyn o bryd i gytuno ar gynnwys ac asesiad manwl o gymwysterau unigol. Bydd y gwaith hwnnw’n dechrau unwaith y byddwn wedi cytuno ar yr ystod gyffredinol o gymwysterau y bydd eu hangen.

Bydd ein cynigion yn ystyried yn ofalus pa ystod o gymwysterau a allai gefnogi meysydd dysgu a phrofiad y cwricwlwm a'i elfennau allweddol orau. Ar y cyfan, byddwn yn cynnig y dylai'r prif gymwysterau TGAU barhau i gynnwys llawer o'r pynciau sydd ar gael ar hyn o bryd, yn hytrach na symud at gymwysterau llawer ehangach sy'n ceisio cwmpasu meysydd dysgu a phrofiad cyfan. Byddwn hefyd yn awgrymu rhai newidiadau posibl i bynciau, cyflwyno rhai newydd a chyfuno rhai sy'n bodoli eisoes. Byddwn hefyd yn nodi cyfleoedd posibl ar gyfer datblygu cymwysterau mwy integredig. Yn ein hymgynghoriad byddwn yn egluro'r meddylfryd y tu ôl i'n. Un ystyriaeth allweddol yw cynnig yr hyblygrwydd mwyaf posibl i ysgolion a dysgwyr ddewis gwahanol gyfuniadau o gymwysterau i gefnogi profiadau cwricwlwm eang a chytbwys.

Mae'n bwysig pwysleisio nad yw'r potensial mwyaf ar gyfer newidiadau yn yr ystod o gymwysterau y gall dysgwyr ddewis ohonynt, ond yn y ffordd y caiff pob cymhwyster ei asesu. Efallai na fydd yr ystod gyffredinol arfaethedig o bynciau yn edrych yn wahanol iawn i'r un presennol, ond gallai hyn barhau i arwain at rai newidiadau sylweddol yn y ffordd y caiff cymwysterau unigol eu cynllunio a'u hasesu.

Byddwn yn disgwyl i'r genhedlaeth nesaf o gymwysterau:

- gefnogi dysgwyr i wireddu'r pedwar diben
- rhoi mwy o hyblygrwydd i ddysgwyr a chanolfannau lunio'r cynnwys y maent yn ei astudio
- annog dysgwyr i wneud cysylltiadau ar draws gwahanol agweddau ar y cwricwlwm

- asesu dysgwyr gan ddefnyddio amrywiaeth o wahanol ddulliau asesu
- gwneud mwy o ddefnydd o dechnoleg ddigidol i gefnogi asesu a dysgu mwy diddorol a pherthnasol.

Unwaith y byddwn wedi cytuno ar yr ystod o gymwysterau a ddylai fod ar gael, byddwn wedyn yn symud ymlaen i ymgynghori ar y bwriad i gynllunio ac asesu cymwysterau unigol, gan ddechrau yn hydref 2021.

**4. Digital assessment**

During the meeting on 17 September, in relation to assessment, you stated:

“There are a number of things that we would like to progress. These are things that we were already thinking about, but maybe they should be accelerated in the thinking. Simple things like digital assessment—online assessment through tests that are delivered on screen, can be delivered remotely, can be delivered in schools, can be delivered on demand, so that you don't have the logistical issues of trying to get 200 young people into a room with computers at the same time— are all things that we're starting to think about in a more concerted way. And they're things that we'll be looking to consult on next year.”

- ***Can you provide more detail on your thinking to date about the role of digital assessment under the future curriculum, and an indication of how it might feature in arrangements for the awarding of qualifications in 2021 (for example as part of the response to the disruption caused by COVID-19)?***

**Ymateb Cymwysterau Cymru:**

Mae cymwysterau i gefnogi'r cwricwlwm newydd yn debygol o gael eu dyfarnu am y tro cyntaf yn 2027. O ystyried pa mor gyflym y mae technoleg ddigidol yn newid sawl agwedd ar fywyd o ddydd i ddydd, gan gynnwys addysgu a dysgu, mae'n iawn inni ystyried sut y gallai hyn effeithio ar gymwysterau.

Yn dilyn ein hymgynghoriad nesaf, byddwn yn dechrau edrych ar y gwaith manwl o gynllunio ac asesu cymwysterau unigol. Wrth i ni wneud hynny byddwn yn chwilio sut y gallai asesu mwy digidol fod o fudd i ddysgwyr, canolfannau a'r system gymwysterau gyfan. Gallai'r rhain gynnwys profiad mwy cadarnhaol o addysgu, dysgu ac asesu dysgwyr ac ymgysylltu â hwy, neu fwy o wydnwch, effeithlonrwydd a hydrinedd wrth gyflwyno cymwysterau ac asesiadau.

Fel y dywedasom wrth y pwyllgor, wrth gyflwyno unrhyw newidiadau i'r dull asesu, bydd bob amser amrywiaeth o ffactorau y mae'n rhaid eu hystyried, gan gynnwys:

- Gallu ysgolion a chanolfannau i ymdopi
- Risg cyflawni i gyrff dyfarnu
- Hygyrchedd i bob dysgwr

Wrth gytuno ar ffordd ymlaen, rhaid sicrhau cydbwysedd sy'n flaengar, ac ar yr un pryd yn bragmatig ac yn gyraeddadwy.

Oherwydd y manteision posibl y gallai eu cynnig, ein safbwynt cyffredinol yw annog a hwyluso mwy o ddefnydd o asesu digidol mewn cymwysterau yn y dyfodol. Byddwn yn ymgysylltu â rhanddeiliaid i archwilio sut y gallai hyn edrych yn ymarferol. Er enghraifft, a ddylem anelu at wneud asesiad digidol yn orfodol o'r dechrau, neu’n ddewisol i ddechrau? Rydym wedi bod yn edrych ledled y byd i ddysgu gan wledydd eraill sy'n symud at fwy o asesu digidol. Er enghraifft, mae Seland Newydd wedi gosod nod hirdymor i bob arholiad gadael ysgol fod ar y sgrin, ond ar hyn o bryd maent mewn cyfnod pontio graddol lle gall dysgwyr ddewis rhwng sefyll fersiwn digidol neu sefyll arholiad pen a phapur.

Er mwyn sicrhau bod manteision posibl yn cael eu gwireddu a bod effeithiau andwyol yn cael eu hosgoi, byddwn yn ystyried y newidiadau penodol sydd eu hangen ar lefel cymwysterau unigol, drwy ymgysylltu â dysgwyr, darparwyr a chyrff dyfarnu.

Cyn belled ag y mae 2021 yn y cwestiwn, rydym ar hyn o bryd yn gweithio gydag ystod o randdeiliaid i ddatblygu ac ystyried ystod o wahanol ddulliau posibl o ddyfarnu cymwysterau yn 2021. Er bod rhai achosion prin lle gallai asesu digidol chwarae rhan posibl, nid ydym yn ei weld yn cynnig ateb i'r her uniongyrchol o gytuno ar drefniadau ar gyfer 2021. Byddai newid cyflym ac eang i asesiadau digidol yn cyflwyno risgiau a heriau cyflawni sylweddol i sefyllfa sydd eisoes yn anodd ac yn ansicr.

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
Welsh Parliament
**Children, Young People and Education Committee**

Philip Blaker, Prif Weithredwr Cymwysterau Cymru

Dyddiad | Date: 23 Medi 2020

Pwnc | Subject: **Y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru)**

Annwyl Philip,

Diolch am ddod i gyfarfod y Pwyllgor wythnos diwethaf, ynghyd â'ch cydweithiwr Emyr George, i roi tystiolaeth ar ran Cymwysterau Cymru ynghylch egwyddorion cyffredinol y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru).

Nid oedd amser i drafod rhai cwestiynau yn ystod y sesiwn. Rwyf wedi cynnwys y cwestiynau hyn yn yr atodiad i'r llythyr hwn a byddwn yn ddiolchgar pe gallech anfon ymateb ysgrifenedig iddynt erbyn 8 Hydref 2020 i helpu i lywio ein gwaith craffu yng nghwmni'r Gweinidog yn nes ymlaen y mis hwnnw.

Yn gywir,

**Lynne Neagle AS**
**Cadeirydd**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPPIA@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCYPE@senedd.wales
0300 200 6565

## ATODIAD

**Y BIL CWRICWLWM AC ASESU: CREFYDD, GWERTHOEDD A MOESEG**

Mae'r darpariaethau yn y Bil ynghylch Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn golygu ei bod hi'n debygol y bydd dwy fersiwn wahanol o wersi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn cael eu haddysgu mewn ysgolion ledled Cymru. Mae disgwyl i ysgolion cymunedol ac ysgolion nad ydynt yn grefyddol eu natur addysgu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg gan dalu sylw i'r maes llafur cytunedig. Bydd disgwyl i ysgolion gwirfoddol a reolir sy'n grefyddol eu natur addysgu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg gan dalu sylw i'r maes llafur cytunedig oni bai bod rhiant yn gofyn bod ei blentyn yn dysgu am Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn unol â gweithredoedd ymddiriedolaeth yr ysgol neu ddaliadau'r ysgol o ran ffydd (hynny yw, Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg enwadol). Bydd ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir yn addysgu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ar sail enwadol yn ddiofyn oni bai bod rhiant yn gofyn bod ei blentyn yn dysgu am Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg mewn modd sy'n cyd-fynd â'r maes llafur cytunedig.

- Beth yw goblygiadau y ddarpariaeth debygol o fwy nag un math o wersi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg o ran cymwysterau yn y ddisgyblaeth hon?

**Y BIL CWRICWLWM AC ASESU: Y GYMRAEG**

Mae'r Bil yn sefydlu un continwwm ar gyfer dysgu'r Gymraeg ym mhob ysgol, gan gael gwared ar y gwahaniaethu presennol rhwng Cymraeg iaith gyntaf a Chymraeg ail iaith.

- Sut y bydd cymwysterau yn y Gymraeg yn cyd-fynd â'r gwahanol gamau y bydd dysgwyr yn debygol o fod wedi'u cyrraedd ar hyd y continwwm o ran y Gymraeg?

- A fydd un cymhwyster o ran y Gymraeg neu a fydd angen dwy lefel o gymwysterau, gan ddibynnu ar hyfedredd y dysgwr yn y Gymraeg?

**CYNLLUNIO AR GYFER CYMWYSTERAU YN EHANGACH**

Mae eich tystiolaeth ysgrifenedig yn nodi bod y gwaith o ddatblygu a chyhoeddi'r Cwricwlwm newydd i Gymru wedi'ch sbarduno i edrych ar sut y bydd angen i gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 ac 16 oed newid. Y rheswm am hyn, yn eich barn chi, yw i fodloni nodau ac amcanion y cwricwlwm newydd ac ymateb i anghenion y dyfodol. Rydych hefyd yn amlinellu'r gwaith rydych wedi'i wneud hyd yma ar y broses lefel uchel o lunio cymwysterau'r dyfodol, a'r gwaith sydd eto i'w wneud.

Yn eich tystiolaeth lafar, dywedoch fod y gwaith ymgysylltu rydych wedi'i wneud hyd yma yn awgrymu tueddiad i ffafrio parhau i strwythuro cymwysterau yn bennaf o amgylch disgyblaethau pwnc, yn hytrach na chael cymwysterau unigol sy'n ceisio cwmpasu maes cyfan o ddysgu a phrofiad. Fodd bynnag, gwnaethoch hefyd awgrymu bod cyfleoedd i ddatblygu cymwysterau mwy holistig ac integredig ochr yn ochr â'r cymwysterau sy'n benodol i bynciau arbennig.

- A allwch roi rhagor o fanylion, ar yr adeg hon, am ffurf y TGAU newydd yn ymarferol yn eich tyb chi, gan nodi beth fydd unrhyw ymgynghoriad yn y dyfodol yn ei drafod (hynny yw, a fydd yr ymgynghoriad yn amlinellu'r opsiynau ddylai fod ar gael i bobl ifanc, neu a fydd yn canolbwyntio ar y cysyniadau y bydd unrhyw ddull newydd wedi'u seilio arnynt)?

**ASESU DIGIDOL**

Yn ystod ein cyfarfod ar 17 Medi, dywedoch yr hyn a ganlyn ynghylch asesu:

> “There are a number of things that we would like to progress. These are things that we were already thinking about, but maybe they should be accelerated in the thinking. Simple things like digital assessment—online assessment through tests that are delivered on screen, can be delivered remotely, can be delivered in schools, can be delivered on demand, so that you don't have the logistical issues of trying to get 200 young people into a room with computers at the same time—are all things that we're starting to think about in a more concerted way. And they're things that we'll be looking to consult on next year.”

- A allwch roi rhagor o fanylion am eich gwaith hyd yma ar rôl asesu digidol yng nghwricwlwm y dyfodol, gan nodi sut y gallai hyn fod yn rhan o’r trefniadau ar gyfer dyfarnu cymwysterau yn 2021 (er enghraifft, fel rhan o’r ymateb i’r anawsterau a achoswyd gan COVID-19)?